



Gadewch i ni chwalu rhai o'r chwedlau.

1. Mae menig yn rhwygo gwallt cleientiaid.

Mae rhwygo yn annhebygol os bydd eich menig yn rhai llyfn, nad ydynt yn rhai latecs ac yn fenig hirach, fel yr argymhellir gan HSE, ac os bydd eich menig yn ffitio'n dda.

2. Mae cleientiaid yn gwrthwynebu menig.

Mae llawer o bobl yn deall pwysigrwydd gofalu am y croen ac ni fyddent yn gwrthwynebu'r defnydd o fenig.

3. Mae menig yn effeithio ar elw.

Mae pâr o fenig tafladwy nad ydynt yn rhai latecs yn costio llai na 10c, sef cyfran fach iawn o gost torri gwallt/triniaeth i'r gwallt. Fodd bynnag, gallai'r costau sy'n gysylltiedig â dermatitis fod yn sylweddol - gallech golli cleientiaid oherwydd salwch ac mewn rhai achosion gelech golli staff yn barhaol.

4. Mae menig yn ei gwneud yn anodd canfod tymheredd dŵr.

Mae menig tafladwy nad ydynt yn rhai latecs o ddefnydd ysgafn ac, os byddant yn ffitio'n dda, maent yn eich galluogi i deimlo'r tymheredd wrth i chi gymysgu.

5. Gall rhai elïau dwylo weithredu fel rhwystrau.

Nid oes unrhyw eli 'rhwystro' go iawn: bydd cemegau bob amser yn cyrraedd y croen. Fodd bynnag, bydd eli a ddefnyddir yn rheolaidd fel rhan o drefn gofalu am y croen yn helpu i gadw'r croen wedi'i hydreiddio ac yn hydwyth, ac atal dermatitis.

6. Mae angen i chi gryfhau eich dwylo drwy osgoi menig.

Croen gwydn, wedi'i grofennu = croen wedi'i niweidio. Nid yw caledu yn ateb ac ni fydd yn atal dermatitis.

7. Menig latecs sydd orau.

Gall menig latecs achosi adweithiau'r croen ac asthma. Mae gan lawer o bobl, yn cynnwys eich cleientiaid o bosibl, alergedd i latecs. Mewn achosion eithafol mae pobl wedi marw o sioc anaffylactig drwy ddod i gysylltiad â latecs.



Atal Dermatitis: Rhestr Wirio'r Salon

Cam 1. Gwisgwch fenig tafladwy nad ydynt yn rhai latecs wrth rinsio, siampwio, lliwio, cannu ac ati.

- Dewiswch faneg hirach – a phlygwch y llawes yn ôl i atal dŵr rhag rhedeg i lawr eich breichiau
- Dewiswch faneg lyfn er mwyn atal gwallt rhag rhwygo
- Sicrhewch fod menig o faint gwahanol ar gael a sicrhewch eu bod yn ffitio'n dda
- Dangoswch i staff sut i dynnu menig drwy eu tynnu i lawr o'r llawes, tra'n osgoi cyffwrdd y croen â menig a ddefnyddiwyd
- Sicrhewch y caiff menig eu gwisgo ar gyfer glanhau arllwysiadau
- Cyfnewidiwch swyddi er mwyn sicrhau bod bob aelod o staff yn dod i gysylltiad mor fach â phosibl
www.hse.gov.uk/skin/posters/singleusegloves.pdf

Cam 2. sychwch eich dwylo'n drylwyr gyda thywel cotwm neu bapur meddal.

- Rhowch dywelion cotwm meddal neu dywelion papur ar gyfer sychu dwylo
- Dywedwch wrth staff am bwysigrwydd sychu dwylo'n drylwyr fel rhan o'u proses o ofalu am eu croen

Cam 3. Defnyddiwch eli ar ôl golchi eich dwylo, yn ogystal ag ar ddechrau a diwedd bob diwrnod.

- Sicrhewch bod eli ar gael i bawb ei ddefnyddio neu rhowch gyflenwad eu hunain i bob un o'ch staff
- Dewiswch eli sy'n rhydd o bersawr, oherwydd gall rhai pobl fod yn sensitif i bersawr
- Anogwch staff i sicrhau bod yr holl ardaloedd yn cael eu cwmpasu – mae'n hawdd colli blaenau'r bysedd, rhwng y bysedd, a gaddyrnau
www.hse.gov.uk/skin/posters/skinmethod.pdf

Cam 4. Newidiwch fenig rhwng cleientiaid.

- Sicrhewch nad yw staff yn aildefnyddio menig - gellir halogi'r croen os byddwch yn ceisio eu rhoi yn ôl ymlaen
- Cynghorwch eich staff i newid menig rhwng cleientiaid – mae hyn yn rhoi cyfle i'r croen gael 'aer'

Cam 5. Archwiliwch eich croen yn rheolaidd am arwyddion cynnar o ddermatitis.

- Ewch i'r arfer o archwilio'ch croen eich hun ac atgoffa staff i wneud yr un peth
www.hse.gov.uk/skin/posters/skindermatitis.pdf

